Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 25(2) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (dccc 1), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, gan ddiystyru unrhyw gyfnodau diddymu neu pan fo toriad am fwy na 4 diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2024 Rhif 1311 (Cy. 220)

# TRETH TRAFODIADAU TIR, CYMRU

## Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2024

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/128 (Cy. 32)) ("Rheoliadau 2018") er mwyn mewnosod cyfraddau treth canrannol diwygiedig ar gyfer y bandiau treth sy'n gymwys i drafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch.

Mae rheoliad 3 yn cymhwyso'r cyfraddau treth canrannol diwygiedig i'r trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch pan fo'r dyddiad y mae'r trafodiad yn cael effaith ar neu ar ôl 11 Rhagfyr 2024.

Mae rheoliad 4 yn mynd ymlaen i nodi eithriad. Pan fo'r dyddiad y mae trafodiadau o'r fath yn cael effaith ar neu ar ôl 11 Rhagfyr 2024, ond pan ymrwymwyd i gontractau neu y cyflawnwyd y contract hwnnw yn sylweddol cyn 11 Rhagfyr 2024, bydd y cyfraddau treth canrannol blaenorol yn dal i fod yn gymwys, oni bai bod un o'r eithriadau a nodir yn rheoliad 5 yn gymwys.

Mae rheoliad 6 yn nodi'r bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol diwygiedig a fydd yn gymwys i drafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 25(2) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (dccc 1), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, gan ddiystyru unrhyw gyfnodau diddymu neu pan fo toriad am fwy na 4 diwrnod.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2024 Rhif 1311 (Cy. 220)

# TRETH TRAFODIADAU TIR, CYMRU

## Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *am 9.05 a.m. ar 10 Rhagfyr 2024* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *am 5.45 p.m. ar 10 Rhagfyr 2024* |
| *Yn dod i rym* | *11 Rhagfyr 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 24(1) a 78(1) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017(**1**).

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 11 Rhagfyr 2024.

(**1**) 2017 dccc 1.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2018" yw Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018(**1**).

(2) Mae i eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr un ystyr ag sydd iddynt yn Neddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017.

**Cymhwyso**

**3.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â thrafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch sydd â dyddiad cael effaith sydd ar neu ar ôl 11 Rhagfyr 2024.

**4.** Ond nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw drafodiad a grybwyllir yn rheoliad 3—

(a) y rhoddir effaith iddo yn unol â chontract yr ymrwymwyd iddo ac a gyflawnwyd yn sylweddol cyn 11 Rhagfyr 2024, neu

(b) y rhoddir effaith iddo yn unol â chontract yr ymrwymwyd iddo ond nas cyflawnwyd yn sylweddol cyn 11 Rhagfyr 2024 ac nad yw wedi ei eithrio gan reoliad 5.

**5.** Mae trafodiad wedi ei eithrio gan y rheoliad hwn os yw'n drafodiad a bennir yn rheoliad 3 y rhoddir effaith iddo yn unol â chontract yr ymrwymwyd iddo cyn 11 Rhagfyr 2024 ac—

(a) pan geir unrhyw amrywiad i'r contract, neu pan aseinir hawliau o dan y contract, ar neu ar ôl 11 Rhagfyr 2024,

(b) pan roddir effaith i'r trafodiad o ganlyniad i arfer unrhyw opsiwn, hawl rhagbrynu neu hawl debyg ar neu ar ôl 11 Rhagfyr 2024, neu

(c) pan geir, ar neu ar ôl 11 Rhagfyr 2024, aseiniad, is-werthiant neu drafodiad arall yn ymwneud â'r cyfan neu ran o bwnc y contract, y caiff person heblaw'r prynwr o dan y contract hawlogaeth i alw am drosglwyddiad o ganlyniad iddo.

**Diwygio Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018**

**6.** Yn yr Atodlen i Reoliadau 2018, yn lle Tabl 2 rhodder—

(**1**) O.S. 2018/128 (Cy. 32), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1618 (Cy. 339), rheoliad 6(1) a (2); mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**"Tabl 2: Trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch**

| *Band treth* | *Y gydnabyddiaeth berthnasol* | *Y gyfradd dreth ganrannol* |
|---|---|---|
| Y band treth cyntaf | Nid mwy na £180,000 | 5% |
| Yr ail fand treth | Mwy na £180,000 ond nid mwy na £250,000 | 8.5% |
| Y trydydd band treth | Mwy na £250,000 ond nid mwy na £400,000 | 10% |
| Y pedwerydd band treth | Mwy na £400,000 ond nid mwy na £750,000 | 12.5% |
| Y pumed band treth | Mwy na £750,000 ond nid mwy na £1,500,000 | 15% |
| Y chweched band treth | Mwy na £1,500,000 | 17%". |

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
Am 9.05 a.m. ar 10 Rhagfyr 2024